

PLANT AC IEUENCTID

GWEDDIAU

DIOLCH AM EIN CREU

Diolch am fywyd, a'r doniau fyrdd
A ddônt mor gyson trwy ddirgel ffyrdd

Diolch heb dewi am dad a mam
A'u gofal tyner o gam i gam.

Diolch am gartref dedwydd glân
A chwmni llon i felysu'r gân.

Diolch am heulwen gynnes a chlir,
A tîrf gawodydd i lasu'r tir.

Diolch am drydar yr adar mwyn
A'u cân bob bore o'r deiliog lwyn.

Diolch am suon yr awel bêr
A disglair oleuni'r siriol sêr.

Diolch am flodau sy'n cuddio'r llawr
A dangos harddwch eu Crëwr mawr.

Canmil diolch am Waredwr byd:
I Grist, ein Ceidwad, a'i Aberth drud.

John Lloyd, *Ar y Cyd*

POPETH CAIN A PHRYDFERTH

Pob peth cain a phrydfert, a phob creadur byw,
pob peth sy'n ddoeth a rhyfedd, fe'u gwnaethpwyd oll gan Dduw.

Pob blodyn bach sy'n agor, pob deryn bach a gân,
Duw wnaeth eu lliwiau gloyw, Duw wnaeth eu hesgyll mân.

Y mynydd dan ei borffor, yr afon ar ei thaith,
y machlud a'r boreuddydd oleua'r wybren faith.

Yr oerwynt yn y gaeaf, yr haul sy'n heulo'r byd,
y ffrwythau yn y berllan, - Duw wnaeth y rhain i gyd.

Rhoes lygaid inni'u gweled, a gwefus a barha
i foli'r Hollalluog a wnaeth pob peth yn dda.

Alice Evans, Wyth Oedfa

DIOLCH, O DDUW, AM DY GREAD

Diolch , O Dduw, am dy gread hardd,
am dlysnï llwyn a chyfoeth gardd;
am leisiau llon y plant a'u sbri
wrth chwarae pêl o gylch y tŷ;
am gân yr adar uwch fy mhen,
a naid y wiwer ar y pren;
am laeth y fuwch ac wy yr iâr,
ffyddlondeb ffrind, a chwmni gwâr;
am wanwyn mwyn a'i flagur ir
ac olion gwaddod yn y tir;
am wên yr haul ar fore haf
ar gae o wenith melyn braf;
am liwiau coeth holl goed y fro
pan ddêl yr hydref yn ei dro;
am gwrlid glân y gaeaf gwyn
a leda'n ddistaw dros y glyn....

Diolch, O Dduw, am ein creu bob un
ar lun ohonot ti dy hun,
am Grist a'i Groes, a'r cyfan sydd
yn tarddu'n rhad o'r Trydydd Dydd.
Diolch, O Dduw. *Amen*

Edwin C. Lewis, *Mil a Mwy o Weddïau*

DIOLCH AM IECHYD

O Dduw diolch am nerth ac iechyd
i chwarae gyda'n gilydd.
Diolch am y gallu i redeg,
neidio, dringo, taflu,
gwthio a gweiddi.
Diolch am greu ein cyrff.
Diolch am y ffordd ryfedd
mae ein cyrff yn gweithio.
Helpa ni i edrych ar ôl ein cyrff.
Helpa ni i beidio â chael
ein tentio i ysmegu, yfed alcohol,
na chymryd cyffuriau.
Helpa ni i osgoi popeth sy'n gallu
gwneud niwed i'n hiechyd.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist. *Amen*

Delyth Wyn ac Aled Davie, *Mil a Mwy o Weddïau*

DIOLCH AM EIN BWYD

Bûm ar neges i'r siop heddiw.
Gwelais y ffrwythau a'r llysiau wedi
eu gosod yn daclus ar y silffoedd.
Roedd yno afalau coch a gwyrdd,
bananas melyn, orennau, grawnwin gwyrdd a du.
Roedd yno fresych, moron, a thatws hefyd.
Er nad wyf fi yn hoffi bwyta'r rhain i gyd,
Diolch i Dduw amdanynt.

Diolch am bawb sy'n helpu i'w tyfu
ac sy'n dod â nhw i'r siop.
Diolch i ti, Dduw. *Amen*

Delyth Wyn ac Aled Davies, *Mil a Mwy o Weddïau*

DIOLCHWN AM FYD LLIWGAR

Arglwydd, diolch am gael byw mewn byd sy'n llawn lliw. Diolch am brydferthwch lliwiau. Diolch am ffresni eira gwyn. Diolch am y meysydd gwyrdd. Diolch am flodau o bob lliw. Diolch am ddail y coed sy'n newid i frown, coch a melyn. Diolch am anifeiliaid o wahanol liw a llun. Diolch am liwiau'r enfys: coch, oren, melyn, gwyrdd, glas, indigo a fioled. Diolch am dy fawredd di, O Dduw, a greodd y lliwiau i gyd. *Amen*

Delyth Wyn ac Aled Davies, *Mil a Mwy o Weddïau*

DERBYN, DIOLCH, RHANNU

Llefarydd: Wrth ddiolch i Dduw, rydym am ddefnyddio'r pum synnwyr fel mae rhai o'r plant am ddangos i ni yn awr.

Plentyn 1: (Yn dangos ac arogl i tusw o flodau.)

Diolch am gael arogl i'r cynhaeaf.

Plentyn 2: (Yn dangos ac yn cyffwrdd ysgub fechan o wenith.)

Diolch am gael cyffwrdd y cynhaeaf.

Plentyn 3: (Yn dangos basged o ffrwythau.)

Diolch am gael gweld y cynhaeaf.

Plentyn 4: Diolch am gael clywed y cynhaeaf.

(Yn bwyta afal yn swnllyd.)

Plentyn 5: Diolch am gael blasu'r cynhaeaf.

(Yn bwyta darn o dorth fechan.)

Llefarydd: Am fod popeth y mae Duw wedi ei greu yn llonni ein calonnau, mwy o reswm felly i ninnau ddefnyddio ein doniau i greu llawenydd a harddwch, fel y byddwn ninnau yn llonni calon Duw, Rhoddwr popeth da. Amen.

GWEDDI

Ein Tad, Grëwr y byd a phob daioni sy'n perthyn iddo, a'n Crëwr ninnau, plygwn ger dy fron i offrymu ein diolch i Ti. Yr ydym yn derbyn dy roddion yn ddifeddwl yn aml. Ond dyma ni'n cymryd seibiant heddiw i gydnabod mai Ti, ein Duw, sydd yn rhoi popeth da i ni. Wrth inni feddwl am yr holl ddaioni, helpa ni i droi ein diolch yn weithredoedd o ddaioni, 'a boed i eraill trwom ni adnabod cariad Duw.' Amen.

POBL SY'N CREU

Y Saer: Y Saer sy'n cymryd darn o bren
A'i drin o yn ofalus.
Mae'n gwneud bob math o gelfi cain
'Wna'n bywyd yn fwy hwylus.

Y Peirianwyr: Llongau ac awyrennau mawr
A wneir gan y peirianwyr;
Compiwtars, ceir ac injan drên,
Teledu a gêmau difyr.

Artistiaid: Mae rhai yn llunio cerdd a gân
A rhai'n sgrifennu llyfrau,
Eraill yn paentio lluniau hardd
Neu'n chwarae offerynnau.

Pensaer: Y pensaer sy'n ofalus iawn
Â'i bensal a'i bren mesur,
Cyn adeiladu tŷ na siop
Rhaid cael y llun ar bapur.

Crefftwyr: Wrth godi tŷ mae'n waith go drwm
Gwneud sylfaen, to a waliau,
A chrefftwyr prysur o bob math
Sy'n gweithio am y gorau.

M.B.J.

Pawb: Diolchwn i Dduw am bawb sy'n creu pethau i wneud ein bywyd mor braf

Jane Richards, *Cadw Gŵyl*

Arweinydd:

Gweddiwn. Ein Tad, Ti a roddaist i ni bob daioni, dyro dy fendith ar wasanaeth diolch y plant. Bydded diolch ymhob calon a chân ar bob gwefus. Amen.

Plentyn: Mae heddiw yn ddydd o ddiolch. Am y byd da yr ydym yn byw ynddo,

Pawb: **Diolch i Ti, Arglwydd da.**

Plentyn: Am ein cadw rhag newyn ac angen,

Pawb: **Diolch i Ti, Arglwydd da.**

Plentyn: Am gael byw mewn gwlad fel hon,

Pawb: **Diolch i Ti, Arglwydd da.**

Plentyn: Am y lle hwn i'th gyfarfod Di,

Pawb: **Diolch i Ti, Arglwydd da.**

Plentyn: Gweddiwn dros rai na welant fyd mor dda,

Pawb: **Arglwydd! Gwranddo ein gweddi.**

Plentyn: A'r rhai sy'n wan gan newyn,

Pawb: **Arglwydd! Gwranddo ein gweddi.**

Plentyn: A'r rhai na chawsant wlad dda i fyw ynddi:

Pawb: **Arglwydd! Gwranddo ein gweddi.**

Plentyn: A'r rhai na chânt addoli yn y Tŷ.

Pawb: Arglwydd! Gwrando ein gweddi. Amen

Gellid trafod gyda'r plant beth yw arwyddocâd 'Damegyr Heuwr' i ni heddiw neu ddangos cerdyn i'r plant ac arno y gair CYNHAEAF ac yna egluro iddynt fod diolchgarwch am y cynhaeaf yn cynnwys holl greadigaeth Duw, e.e. diolchwn am:

CYNHAEAF

C – Cartref clyd, rhieni a pherthnasau eraill. Cofiwn am blant a phobl sy'n ddigartref.

Y – Ysgol – athrawon. Diolchwn am y gallu i ddysgu ac i chwarae. Cofiwn am blant anabl, yn feddyliol a chorfforol.

N – Nyth – am yr adar sy'n canu ac am bob anifail arall, rhown ddiolch i Dduw.

H – Haul, y gwynt a'r glaw. Diolchwn am holl dymhorau'r flwyddyn.

A – Afal – Diolchwn am holl ffrwythau'r maes. Am fwyd yn gyffredinol ac am lafur dyn. Cofiwn am y newynog a'r rhai sydd mewn angen.

E – Eglwys a Chapel ac Ysgol Sul ac am yr Efengylau sy'n rhoi hanes Iesu Grist i ni. Diolchwn am waith cenhadol yr eglwys.

A – Addoli. Prif ddyletswydd pob Cristion yw rhoi diolch a moliant i Dduw nid yn unig yn ystod Gŵyl y Cynhaeaf ond drwy gydol y flwyddyn.

F – Fi. Daw'r llythyren hon ar ddiwedd y gair. Y fi sy'n dod yn olaf, rhaid i mi gofio am bawb a phopeth arall yn gyntaf.

Gwasanaethau Antur Cyfrol 1

GWEDDI

Diolch i Ti, ein Tad, am iechyd i gyd-weithio â Thi. Diolch am flodau'r ardd a'r llyisiau, ac am ffrwythau'r berllan. Diolchwn am gnydau'r maes, a chynhaeaf y perthi. Gwna ni'n wir ddiolchgar am y cyfan. Diolch i Ti am ffydd yr amaethwr, ac am ei lafur caled. Maddau ein bod mor barod i rwgnach a ninnau'n byw mewn byd mor ffrwythlon a lliwgar, a'n bwrdd bob amser yn llwythog. Gwna ni'n debyg i Iesu Grist, - bob amser yn ddiolchgar, a phob amser yn barod i'th wasanaethu. Amen.

GWEDDI

A gawn ni feddwl am yr holl roddion a dderbyniasom oddi wrth Dduw heddiw a diolch amdanynt
(Distawrwydd)

O Dduw ein Tad, helpa ni yn awr i ddod atat ti gyda chalonnau diolchgar i ddyrchafu i Ti ein mawl am bob rhodd ac am dy holl ddaioni i ni, am fendithion y tymhorau, am dy ofal drosom ac am dy ffyddlondeb di-derfyn. Clodforwn dy enw o Dduw.

Am, gyfoeth a phrydferthwch y byd o'n cwmpas, am ffrwythau'r ddaear a'r cynhaeaf yn ei bryd ac am bopeth hawddgar a theg. Clodforwn dy enw o Dduw.

Am ein pleserau ac am bob dedwyddwch a ddaw i ni yn ein bywyd beunyddiol, am bob mantais a fwynhawn mewn celfyddyd, gwyddoniaeth, llenyddiaeth a cherddoriaeth. Clodforwn dy enw o Dduw. Amen.

Gwasanaethau Antur Cyfrol 2

GWEDDI O DDIOLCHGARWCH

Hollalluog Dduw, diolchwn i ti am y byd ac am dy holl drugareddau, am yr awyr uwch ein pen, a'r ddaear o dan ein traed, am ein cartrefi a'n cyfeillion, am dy allu a'th gariad sydd yn ein gwarchod ac, uwchlaw pob dim, am fywyd ac esiampl Iesu Grist, dy Fab, ein Harglwydd. *Amen.*

Mawl yr Ifanc, Mil a Mwy o Weddïau

NATUR O’N CWMPAS

Gadewch inni ddiolch heddiw, bob un yn ei ffordd ei hun, am fyd natur. Trwy’r ffenestr gallwn weld blodau ar fin ymagor, a choed gyda’u blagur cynnar, a gallwn glywed cân yr adar. Mae llawer o bethau eraill i’w gweld o’n cwmpas hefyd. Diolchwn amdanynt oll. [TAWELWCH]

DIOLCH AM NATUR

(Ar ddiwedd pob brawddeg, rwyf am i bawb ddweud ‘Diolchwn i Ti.’)
Am haul tanbaid a’r lleud a’r sêr –

Diolchwn i Ti.

Am awyr las a chymylau gwynion –

Diolchwn i Ti.

Am anifeiliaid a physgod ac adar –

Diolchwn i Ti.

Am flodau a phrennau sy’n dwyn ffrwyth –

Diolchwn i Ti. Amen.

LLIWIAU’R HYDREF

Diolch am liwiau’r coed yn yr hydref. Maent mor dlws.

Diolchwn hefyd am yr hwyl a gawn yn hel cnau. Cofiwn mai cnau yw bwyd y gwiwerod drwy’r gaeaf tywyll. Gobeithio bod ganddynt ddigon o fwyd a chynhesrwydd i’w cadw’n fyw yn ystod misoedd oer y gaeaf. Amen.

DIOLCH I TI

Diolch i Ti, O Dduw, am fam a thad, chwaer a brawd.

Diolch i Ti am yr haul a’r glaw.

Diolch i Ti am yr ysgol i’n dysgu.

Diolch i Ti am y byd a’r blodau.

Diolch i Ti am ein bwyd.

Diolch i Ti am ein dillad.

Diolch i Ti am y tân sydd yn ein cynhesu trwy'r gaeaf.
Trwy Iesu Grist. Amen.

POBL SY'N EIN HELPU

Heddiw, cofiwn am bobl a ddaw â bwyd inni: Dyn y fen fara a'r dyn sy'n dod â llaeth at ein drysau, a llawer eraill. Cofiwn hefyd am y postman sy'n dod â llythyrau inni, ac am y dyn glo sy'n dod â glo i gynhesu ein cartrefi. Wrth gofio am y bobl hyn a'r holl bethau a gawn ganddynt, boed inni gofio hefyd am y plant sy'n newynog a thrist. Amen.

Diolch i Ti, Arglwydd, am brydferthwch a rhyfeddod y cread a chysondeb y tymhorau, am ffresni'r gwynt a'r glaw, am wres yr haul a golau'r lleuad a disgleirdeb y sêr, ac am ffrwythlondeb y tir.

Diolch i Ti am fwyd i'n cynnal a dillad i'n cynhesu. Am gael cysgu'r nos a deffro'r bore, ac am nerth ac iechyd.

Diolch i Ti am ein cartrefi ac am y cariad a'r llawenydd a brofwn yno yn y rhoi a'r derbyn rhwng rhieni a phlant a rhwng brodyr a chwiorydd.

Diolch i Ti am gyfeillion y gallwn droi atynt bob amser gyda sicrwydd na wnânt ein bradychu; am rywrai sy'n dod at ddrysau'n tai yn gyson: y postmon, y dyn llaeth a'r dyn papur newydd; ac am lu o bobl y dibynnwn lawer arnynt, er na wyddom ddim amdanynt – gweithwyr mewn swyddfeydd a ffatrioedd a chynghorau ac ati.

Diolch i Ti am Gymru, ein gwlad – am ei mynyddoedd a'i dyffrynnoedd a'i hafonydd a'i nentydd, am ei heglwysi a'i hysgolion a'i cholegau, am ei hiaith a'i diwylliant.

Diolch i Ti, yn bennaf oll, am Iesu Grist, ein Brawd a'n Gwardwr, sydd bob amser gyda ni.

Diolch i Ti, Arglwydd.

Diolch i Ti.

Harri Parri a William Williams, *Ffenestri Agored*

AM HYFRYDWCH HWYR HYDREF

Arglwydd,
gwelwn y coed wedi eu gwisgo'n wych yn gynnes-goch,
yn felyn aur, llwytgoch a choch llachar.
Gwelwn y gweunydd yn troi'n hydrefol
a chlywn gân yr adar fel simffoni.
Diflannodd gwres yr haf
ond yn y myllder mae natur yn gwisgo gwisg yr hydref.
Rhown ddiolch a chlod iti, Dduw'r greadigaeth,
am raslonrwydd hydrefol diwrnod arall. Amen.

Y TYMHORAU NEWIDIOL

Molwch Dduw am yr holl dymhorau,
Molwch ef am y gwanwyn mwyn,
Molwch yr Arglwydd am haf bendigedig,
Adar ac anifeiliaid a phob dim.
Molwch yr Arglwydd, sy'n anfon y cynhaeaf,
Molwch ef am eira'r gaeaf,
Molwch yr Arglwydd, bawb sy'n ei garu ef.
Molwch ef, am yr holl bethau y gwyddom amdanynt. Amen.

DIOLCH AM FY SYNHWYRAU

Gall fy nhafod flasu pob math o bethau.
Pob math o bethau! Cymaint o bethau!
Gall fy nhrwyn aroglu pob math o bethau.
Diolch i ti, Nefol Dad.

Gall fy nghlustiau glywed pob math o bethau.
Pob math o bethau! Cymaint o bethau!
Gall fy llygaid weld cymaint o bethau.
Diolch i ti, Nefol Dad.

Gall fy nwylo gyffwrdd â phob math o bethau.

Pob math o bethau! Cymaint o bethau!
 A gallaf wneud cymaint o bethau!
 Diolch i ti , Nefol Dad. Amen.

Glyn Tudwal Jones, *Mil a Mwy o Weddïau*

GWEDDI

Meddyliwn am y miloedd sy'n dioddef newyn a syched ac oerni heddiw.
(Distawrwydd)

O Dad, cyflwynwn i Ti ffoaduriaid ein byd a phawb sydd heb unman i roi eu pennau i lawr. Cyflwynwn i ti y newynog a'r sychedig a'r rhai sy'n brin eu dillad. Mae fy hunanoldeb i ac eraill yn arwain i rannu bendithion y ddaear yn anwastad – rhai uwchben eu digon ac eraill mewn prinder. Maddau i ni, O Arglwydd.

Dyro i ni ysbryd cariad a gwasanaeth a nertha ni i wneud ein rhan i waredu'r byd rhag newyn. Fel y porthodd yr Arglwydd Iesu'r pum mil geilw arnom ninnau i borthi'r newynog yn ei enw ef a bod yn ufudd i'w alwad – 'Rhowch chi rywbeth i'w fwyta iddynt'. Dyro i ni dosturi Iesu Grist er gogoniant i'th enw dy hun. Amen.

Gwasanaethau Antur Cyfrol 2

GWEDDI

i) Diolchwn i Ti, O! Dduw, am greu, a diolch mai Ti hefyd sydd yn cynnal popeth, yn rhoi bwyd i'r pysgod a'r llyisiau, i anifeiliaid a dynion. Yr wyt yn ddigon mawr i ofalu am y cread i gyd. Diolch i Ti am drefnu bywyd mor ryfedd ar y ddaear hon. Er mwyn Iesu Grist, Amen

ii) Ein Tad, diolchwn i Ti am Dy ddaioni tuag atom. Yr wyt Ti bob amser yn Dy ddangos Dy hun i ni yn Dy greadigaeth. Lle bynnag y trown ni yr wyt Ti o'n hamgylch. Helpa ni i sylweddoli bod dail y coed a blodau'r maes, yr anifeiliaid a'r adar sydd o'n cwmpas, yn dweud mai rhyfedd wyt, O Dduw. Clodforwn Di am Dy ofal am ein byd; am i Ti ei wneud yn fyd hardd i ni fyw ynddo. Diolchwn i Ti am weld natur o'n cwmpas yn ei phrydferthwch.

Gofynnwn am dy gymorth i weld a deall mai Dy law Di sydd wedi creu'r cyfan ac mai Ti yw Cynhaliwr pob peth. Amen

iii) Arglwydd ein Iôr, diolchwn i Ti am anifeiliaid y cread, ac am y pleser a'r hwyl a gawn wrth eu gwyllo o'n cwmpas. Dysg ni i fod yn garedig a thyner wrthynt. Maddau i bawb sy'n cael eu temtio i fod yn anystyriol ac angharedig. Tosturia wrth bawb sy'n gas ac yn greulon wrth anifeiliaid. Maddau i ninnau pan anghofiwn barchu yr hyn rwyf Ti wedi ei greu. Amen.

SALM

O edrych ar y byd o'n cwmpas, mae dau ddewis yn ein hwynebu – ai damwain yw'r cyfan, ynteu ai Duw sy'n gyfrifol?

Tybed a deimlwn ni fel y Salmydd? A ydym wrth godi yn y bore yn teimlo wrth ein bodd yn cael byw ym myd Duw, neu ai grwgnach a chwynfanu a wnawn? A fyddwn ni'n stopio i edrych ar y byd o'n cwmpas weithiau a rhyfeddu at wyrth y cread fel y Salmydd, neu a gymerwn y cyfan yn ganiataol? A fyddwn yn synnu weithiau ar faint y bydysawd?

Planed fach ddinod yw ein daear ni, yn cychdroi o gwmpas yr haul sydd filiwn o weithiau yn fwy na hi. Mae'r blaned hon yn llai, mewn cymhariaeth, nag un gronyn o dywod ar holl draethau'r byd.

Meddyliwch fod goleuni yn cymryd 80 o flynyddoedd i deithio o'r Arth Fawr i'n daear ni. Nid ydym yn gweld y sêr fel ag y maent, ond fel yr oeddynt gannoedd a miloedd o flynyddoedd yn ôl.

Wrth inni gofio ffeithiau fel hyn, gwelwn mor fychan yw dyn. Ond eto, nid maint sydd yn penderfynu gwerth unrhyw beth. Maer tŷ yn llawer mwy o faint na phlentyn, ond byddai'n well gan Dad weld y tŷ yn llosgi i'r llawr, na cholli bywyd y plentyn. Mae'r Salmydd yn rhyfeddu bod Duw yn gofalu am ddyn, er mor fychan ydyw. Dylem ninnau felly fod yn ostyngedig a dangos parch at y byd a'i bethau. Pe baech yn cael benthyg wats neu gamera gan gyfaill, byddech yn sicr o gymryd y gofal mwyaf ohonynt am eu bod yn eiddo i rhywun arall. Mae'r un peth yn wir am fyd Duw – a ydym ni yn cymryd y gofal mwyaf ohono ac yn ymddwyn yn gyfrifol tuag ato, a thuag at ein cyd-ddynion?

CARIAD DUW

Mae popeth byw sydd yn y byd,
 Dan ofal tyner Duw.
 Holl greaduriaid maes a môr,
 A'r blodau tlws eu lliw.

Pan fydd yr hin yn oer a llym
 A'r eira dros y tir,
 Fe gwsg y wiwer fach yn drwm
 O fewn ei chynffon hir.

O lwyn a gardd mae'r adar mwyn
 Yn llenwi'r fro â'u cân,
 Gan wibio yma a thraw yn llon,
 Mewn gwisg o blu bach mân.

Mae'n rhyfedd fel mae'r lili fach
 Yn tyfu â'i phen i lawr,
 Rhag iddi gael ei churo'n chwyrn
 Gan rym y gwyntoedd mawr.

Er garwed ydyw'r Gaeaf oer,
 Mae'r ddafad ar y bryn
 Yn pori'n braf mewn côt o wlân
 Sy'n cau amdani'n dynn.

Am ofal tyner dros bob un,
 Rhown ddiolch mawr i Dduw,
 Cans iddo Ef mae'r clod a'r mawl,
 Mor llawn o gariad yw.

Margaret Jones

MAWL I ARGLWYDD Y CREAD

Ti, O! Dad,
sy'n anfon golau i'r ffenestri
pan fo'r cysgodion yn drwm

Ynot y mae'r gân yn geni
a'r harddwch yn tarddu;
fel perarogl y rhosyn
yw rhin dy eiriau
ac o'r gwybod daw gobaith.

Gwedd dy wyneb sy'n canu'r clychau
yn awr trybestod byd
a'th ras a dyrr y cadwyni
sy'n llesteirio dyheu.

Seinir dy gerddi
gan fôr ac afon,
a'th foliant a gyhoeddir
o'r twyni gwyrddlas.

Cadarn ydwyf fel craig
a diysgog fel mynydd;
dy gryfder yn rhwymyn ein bod.

Dy adnabod yw drws y bore
i lawenydd win dyddiau,
a'th gariad yw ein hangor cryf
hyd derfyn amser.

W. Rhys Nicholas